



Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER

Ministry of
JUSTICE




Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid

Datblygu'r Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr

Ymateb y Llywodraeth i'r
Ymgynghoriad

Ymateb i Ymgynghoriad CP(R) 13/2011
Cyhoeddir yr ymateb hwn ym Mawrth 2012





**Gweinyddiaeth
CYFIAWNDER**

**Ministry of
JUSTICE**



**Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid**

Datblygu'r Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr

Ymateb y Llywodraeth i'r Ymgynghoriad

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid
Cymru a Lloegr.**

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
www.justice.gov.uk.**

Gair am yr ymgynghoriad hwn

At: Bwriadwyd yr ymgynghoriad ar gyfer darparwyr sefydliadau diogel presennol, ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid sy'n gweithio ar draws y sefydliadau caethiwo a'r gymuned, elusennau plant a mudiadau trydydd sector cysylltiedig, cyd gomisiynwyr ym maes iechyd ac addysg, rheolwyr gwasanaethau plant awdurdodau lleol, aelodau seneddol, pobl ifanc¹ yn y system cyfiawnder ieuenctid a'u teuluoedd.

Hyd: O 19/07/2011 tan 11/10/2011

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat amgen) at:

Karl Mittelstadt
Project Manager
Youth Justice Board
1 Drummond Gate
Llundain SW1V 2QZ

Ffôn: 020 3372 7891
E-bost: Karl.mittelstadt@yjb.gov.uk

¹ Drwy'r ddogfen hon, defnyddiwn y termau 'plant' a 'phobl ifanc' yn gyfnewidiol. Nid ydym wedi dilyn y diffiniadau cyfreithiol ar gyfer y naill na'r llall ond yn hytrach, bwriadwn i'r sylwadau a'r ymrwymadau a wnaed yn y strategaeth hon fod yn berthnasol i bawb sydd yn yr ystâd sefydliadau diogel i rai dan 18 oed.

Cynnwys

Rhagair	2
Cyfiwyniad a manylion cysylltu	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Ymatebion i gwestiynau penodol	15
Casgliadau a'r camau nesaf	23
Y meini prawf ymgynghori	25
Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	26

Rhagair

Roedd Papur Gwyrdd y llywodraeth 'Torri'r Cylch' yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ar ddyfodol yr ystâd sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc. Mae'r gostyngiad sylweddol, diweddar yn nifer y plant a'r bobl ifanc sydd yn y ddalfa yn golygu bod yr ystâd sefydliadau diogel yn awr yn mynd drwy gyfnod o newid ac mae hyn yn rhoi cyfle i ni gymryd cam yn ôl a meddwl am ansawdd y gwasanaeth a'r math o wasanaeth a gynigir i rai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch yn bersonol i'r holl bobl hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i fod yn rhan o'r ymgynghoriad ac wedi ymateb. Mae amrywiaeth, swmp a sylwedd yr ymatebion yn dangos diddordeb eang a phwysigrwydd cyfiawnder ieuencid a chaethiwo.

Rwy'n credu mai caethiwo yw'r gosb briodol i'r bobl ifanc hynny sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol a mwyaf cyson. Y dewis olaf yw caethiwo bob amser ond gall helpu pobl ifanc i wynebu eu hymddygiad troseddol a rhoi sylw iddo. Mae hefyd yn gyfle, os caiff ei gyflenwi'n briodol, i roi pobl ifanc ar lwybr mwy adeiladol.

Mae'n hanfodol na chaiff caethiwo ei drin fel rhan ar wahân o'r system cyfiawnder ieuencid os ydym am weld cyfraddau aildroseddu pobl ifanc sy'n gadael y ddalfa yn gwell. I adsefydlu'n effeithiol mae gofyn am gydweithrediad agos rhwng darparwyr sefydliadau caethiwo a chefnogaeth yn y gymuned fel bod gan bobl ifanc fynediad i wasanaethau a fydd yn helpu i atal troseddu pellach.

Fel gyda phob agwedd ar y gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfyngiadau ariannol ar hyn o bryd ar lefel y newid, y datblygu a'r diwygio y gellir ei gyflawni. Bydd y cynlluniau datblygu yr ydym wedi'u llunio ar gyfer gweddill cyfnod yr adolygiad o wariant yn gwneud llawer iawn i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer pobl ifanc ac a ddarperir ar eu cyfer yn bodloni eu hanghenion unigol ac yn sicrhau eu diogelwch.

Ochr yn ochr â bwrw'r cynlluniau hyn ymlaen, rwyf wedi gofyn i waith pellach gael ei wneud ar ddatblygu strategaeth a fydd yn archwilio uchelgeisiau ehangach y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad o wariant. Bydd hyn yn cynnwys ystyried gwahanol fathau o ddarpariaeth, trefniadau comisiynu amgen, strategaethau cystadlu, a rôl awdurdodau lleol. Byddwn yn cynnwys partneriaid cyfiawnder ieuencid wrth i ni fwrw hynny ymlaen.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gyflawni'r cynlluniau hyn a datblygu strategaeth gydag ein partneriaid cyfiawnder ieuencid a fydd yn sicrhau ystâd sefydliadau caethiwo diogel, saff ac effeithiol.



Crispin Blunt AS
Is Ysgrifennydd Gwladol, y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cyflwyniad a manylion cysylltu

Adroddiad ôl-ymgyngori ar gyfer y papur ymgynghori *Strategaeth ar gyfer yr Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr – Cynlluniau ar gyfer 2011/12–2014/15* yw'r ddogfen hon. Bydd yn rhoi sylw i:

- gefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godir yn yr adroddiad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

I gael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori cysylltwch â **Debbie Woodgate, Rheolwr Prosiect Cynorthwyol** yn y cyfeiriad isod:

Youth Justice Board for England and Wales
Directorate of Secure Accommodation
1 Drummond Gate
Llundain SW1V 2QZ

Teleffon: 020 3372 7886

E-bost: debbie.woodgate@yjb.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
www.justice.gov.uk.

Mae fersiwn Saesneg o'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Cefndir

Cafodd y papur ymgynghori *Strategaeth ar gyfer yr Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru a Lloegr – Cynlluniau ar gyfer 2011/12–2014/15* ei gyhoeddi ar 19 Gorffennaf 2011.² Roedd yn gwahodd sylwadau ar nifer o gynigon ar gyfer datblygu'r ystâd sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 2015.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Hydref 2011. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn disgrifio sut wnaeth y broses ymgynghori ddylanwadu ar ddatblygiad cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dylech ddarllen yr adroddiad hwn ar y cyd â dogfen y llywodraeth *Datblygu'r Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – Cynlluniau hyd at 2015*,³ sy'n datgan y camau sy'n cael eu cymryd o ganlyniad i'r ymgynghoriad i wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc a leolir mewn sefydliadau diogel.

Cafodd yr Asesiad o Effaith a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ei ddiweddarau i roi ystyriaeth i'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y rhanddeiliaid, yn ogystal â'r datblygiadau polisi diweddar a ddigwyddodd yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Caiff yr Asesiad o Effaith diweddaraf ei gyhoeddi ar yr un pryd ac mae i'w weld ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r Asesiad o Effaith terfynol, sydd hefyd wedi'i ddiwygio ers y cyfnod ymgynghori, hefyd ar gael oddi ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymateb ar gael.

² Gweler <http://www.justice.gov.uk/consultations/strategy-secure-estate-children.htm>


³ Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid/y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Datblygu'r Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – Cynlluniau hyd at 2015*. Llundain: y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Crynodeb o'r ymatebion

Trosolwg

Daeth 80 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law oddi wrth amrywiol randdeiliaid. Fel mae'r siart yn Ffigur 1 yn dangos, daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth dimau troseddwy'r ifanc (TTlau)/gwasanaethau plant, cyrff swyddogol a'r llywodraeth yn ogystal ag oddi wrth fudiadau trydydd sector sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn cyfiawnder ieuencid.

Ffigur 1. Trosolwg o'r ymatebion



Tabl 1. Nifer a chanran yr ymatebion yn ôl y math o ymatebwyr

Sector	Nifer yr ymatebion	Canran
TTlau/gwasanaethau plant	21	27%
Cyrff swyddogol a'r Llywodraeth	13	16%
Trydydd sector	13	16%
Darparwyr sefydliadau diogel	10	12.5%
Iechyd	7	9%
Eraill	7	9%
Cymru	6	7.5%
Y cyhoedd	3	3%
Cyfanswm	80	100%

Darperir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i dryloywder ac mae wedi rhyddhau pob ymateb ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ynghyd â'r ddogfen ymateb hon.

Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ffurfiol, a oedd yn rhedeg o fis Gorffennaf i fis Hydref 2011, bu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI):

- yn goruchwyllo digwyddiadau cyswllt rhanbarthol a oedd yn targedu TTlau, gwasanaethau plant a darparwyr sefydliadau diogel i hybu a thrafod cynlluniau datblygu
- yn comisiynu ei ddarparwyr eiriolaeth presennol, Voice a Barnardo's, i gasglu barn plant a phobl ifanc a leolir yn yr ystâd sefydliadau diogel
- yn cynnal nifer o seminarau gyda phartneriaid allweddol y trydydd sector a'r llywodraeth.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â'r arferion da a amlinellir yn nogfen y llywodraeth *Code of Practice on Consultation*.⁴

Safbwyntiau pobl ifanc

Gofynnwyd i sampl gynrychioliadol o blant a phobl ifanc yn yr ystâd sefydliadau diogel lenwi holiadur a mynychu grŵp ffocws. Cafodd yr holiadur ei lunio i fod yn briodol i oedran ac yn hygyrch i ystod o alluoedd. Pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol, cynigiai'r eiriolwyr gymorth a chefnogaeth unigol i'r bobl ifanc yr oeddent angen cefnogaeth i lenwi'r holiadur.

⁴ Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (2008) *Code of Practice on Consultation*. Llundain: Llywodraeth EM.

Cafodd y grwpiau ffocws eu cynnull ar draws pob sector a chawsant eu hwyluso gan eiriolwyr gyda'r nod o gasglu gwybodaeth ansoddol bellach. Bu i oddeutu 8% o'r sampl wreiddiol fynychu'r grwpiau ffocws.

Roedd cyfanswm o 678 o bobl ifanc yn rhan o'r sampl (~34% o'r boblogaeth a oedd wedi'i chaethiwo adeg cynnal yr arolwg). Cymerwyd y sampl o dri sector yr ystâd sefydliadau diogel ac roedd yn eithaf cynrychioliadol o safbwynt oedran, rhyw ac ethnigrwydd.

Roedd yr holiadur yn casglu barn y bobl ifanc am:

- egwyddorion allweddol yr ystâd sefydliadau diogel
- asesu a chynllunio dedfrydau
- mynediad i gyfundrefnau effeithiol
- ymateb i angen
- ailsefydlu.

Gwnaed y gwaith maes rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2011. Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad.

Lleihau aildroseddu

Roedd mwyafrif llethol y bobl ifanc yn cytuno ar y ffactorau a oedd wedi lleihau eu risg o aildroseddu (bod â mwy o arian, osgoi dylanwad negyddol gan gyfoedion, osgoi cyffuriau ac alcohol a chael gwaith) ond roedd llai na chwarter (23%) - a llai fyth o gyfranogwyr duon a lleiafrifoedd ethnig (BME) a chyfranogwyr benyw (19% a 14%, yn y drefn honno) – yn teimlo eu bod yn cael digon o help ar hyn o bryd gyda'r materion hyn.

Cyfundrefnau effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc mewn cartrefi plant diogel (65%) yn teimlo mai'r sefydliad yr oeddent ynddo ar y pryd oedd y lle gorau iddynt fod, ond traean yn unig o'r rheini mewn canolfannau hyfforddi diogel (CHDau) a sefydliadau troseddwyr ifanc (STlau) i rai dan 18 a gytunai. Nid oedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn meddwl bod cyfnod mewn caethiwed yn eu paratoi'n ddigonol am fywyd yn y gymuned.

Asesiadau integredig

Lleiafrif yn unig o'r bobl ifanc adroddodd eu bod wedi cael asesiad cychwynnol. Pan gofiwyd am asesiad cychwynnol, teimlai'r mwyafrif (62%) fod yr ymarferydd wedi cymryd amser i ddeall eu hanghenion.

Fodd bynnag, roedd cyfran lawer uwch o'r cyfranogwyr BME o'u cymharu â'r cyfranogwyr Gwyn yn teimlo na chymerwyd digon o amser i ddeall eu hanghenion yn yr asesiad cychwynnol (35% a 22%, yn y drefn honno).

Roedd 56% o'r bobl ifanc yn cofio i gynllun gweithredu gael ei ddatblygu yn eu cyfarfod cynllunio cyntaf. Unwaith eto, y cyfranogwyr BME oedd â'r profiadau mwyaf negyddol, gyda 47% yn unig (o'i gymharu â 61% o'r cyfranogwyr Gwyn) yn cofio i gynllun gael ei ddatblygu yr adeg honno. O'r rheini oedd yn cofio i gynllun gael ei ddatblygu, dywedodd y rhan fwyaf (69%) ei fod o gymorth i'r sefyllfa ar y pryd, ond roedd llai (58%) yn credu y byddai o gymorth i'r dyfodol.

Perthnasoedd gyda'r staff

Roedd mwyafrif helaeth o'r bobl ifanc mewn CHDau (71%) yn ystyried y rhain yn bositif, ond roedd y ffigur yn llawer is mewn STlau i rai dan 18 (48%) a chartrefi plant diogel (59%), lle nad oedd safbwyntiau'r bobl ifanc yn bositif nac yn negyddol. Oddeutu hanner yn unig oedd yn teimlo y rhoddwyd cyfle iddynt "dim ond siarad" mewn STlau i rai dan 18 (o'i gymharu â dros draean mewn CHDau a chartrefi plant diogel).

Diogelu

Er i 64% o'r bobl ifanc ddweud eu bod prin neu erioed wedi teimlo'n ofnus ac i 76% o'r bobl ifanc ddweud eu bod prin neu erioed wedi cael eu bwlio, dywedodd dros draean eu bod wedi bod yn ofnus o leiaf rhyw gymaint o'r amser. Roedd 22% wedi cael eu bwlio o leiaf rhyw gymaint o'r amser ac roedd bron chwarter wedi bod yn anhapus am gyfnodau maith.

Addysg

Ychydig iawn o feddwl o addysg oedd gan y bobl ifanc yn yr arolwg. Roedd oddeutu chwarter y bobl ifanc (24%) yn meddwl bod y dewis o gyrsiau'n wael, a daethpwyd i'r casgliad yn yr holiadur a'r grwpiau ffocws y byddai mwy o gefnogaeth mewn sgiliau byw yn fanteisiol. Yn gyffredinol, dywedodd y bobl ifanc eu bod eisiau i addysg gyplysu'n agosach gyda'r gymuned, cynnig cyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at brentisiaethau a darparu interniaethau a sgiliau busnes.

Bwyd

Roedd y bobl ifanc yn teimlo bod y bwyd yn wael. Roedd eu pryderon yn ymwneud â dognau bach, diffyg amrywiaeth ac opsiynau iach. Mynegodd y merched eu pryderon am ennill pwysau.

Barn am ailsefydlu

Y pryderon mwyaf taer i'r bobl ifanc oedd bod â digon o arian i oroesi, cael gafael ar le addas i fyw ac addysg berthnasol a chynaliadwy. Dywedodd mwyafrif sylweddol (73%) fod cadw mewn cysylltiad â rhieni neu ofalwyr yn "bwysig iawn". Ystyriwyd mai'r teulu, y TTI a'r bobl ifanc eu hunain oedd â'r rhan bwysicaf i'w chwarae i gynllunio ar gyfer eu rhyddhau. Roedd trafodaethau'r grŵp ffocws yn amlygu'r farn nad oedd cynlluniau'n mynd yn ddigon pell i baratoi ar gyfer realiti bywyd bob dydd nac i gynnal trefn i'r unigolion.

Mae barn y plant a'r bobl ifanc yn yr ystâd sefydliadau diogel wedi dylanwadu ar ddatblygiad cynigion y llywodraeth, yn ogystal ag wedi siapio ymateb y

Llywodraeth fel y'i hamlinellir yn y ddogfen hon – yn enwedig o safbwynt darparu bywd a darparu gwasanaethau ailsefydlu effeithiol. Mae adroddiad llawn Voice a Barnardo's wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Nid oedd yr ymarferiad ymgynghori yn cyfyngu'r ymatebion i set o gwestiynau pendant ac anogai gyfraniadau ar unrhyw agwedd ar y ddogfen ymgynghori. Ar ôl gwerthuso'r holl ymatebion a gafwyd yn ofalus, bu'n bosib gweld nifer fechan o themâu allweddol a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid. Amlinellir y rhain isod. Mae'r ymatebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad i'w gweld ar wahân, yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Cyflwyniad

Gwnaed nifer o awgrymiadau ar sut i wella'r ddogfen - o ran arddull a chynnwys, fel ei gilydd. Gofynnai llawer o'r rhanddeiliaid am fwy o eglurder ar gyfeiriad yr ystâd sefydliadau diogel i'r dyfodol, ac am gynnwys cydnabyddiaeth o'r problemau y mae'r ystâd sefydliadau diogel yn awr yn eu hwynebu. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am drosolwg manylach ar nodweddion y boblogaeth bresennol yn y ddogfen. Roedd rhai ymatebion, at hynny, yn dadlau am fwy o fanylder ar sut caiff y cynllun datblygu ei weithredu.

Rydym yn cytuno gyda'r awgrymiadau a wnaed, ac o ganlyniad rydym:

- wedi cynnwys datganiad gweledigaeth
- wedi datgan y sialensiau gweithredol presennol yn yr ystâd sefydliadau diogel i ran dan 18 oed
- wedi egluro'n fanylach y prosesau sydd gennym wedi'u sefydlu er mwyn gweithredu'r cynlluniau datblygu yn effeithiol
- wedi darparu cyfeiriadau lle gellir cael gwybodaeth bellach ar nodweddion y boblogaeth bresennol.

Ymateb i anghymesuredd a hybu cydraddoldeb

Tynnodd nifer o'r ymatebion sylw at y ffaith bod gan blant a phobl ifanc BME ormod o gynrychiolaeth yn y ddalfa – ac at y ffaith bod y garfan hon yn tueddu i gael canlyniadau llai ffafriol pan y'u rhoddir yn y ddalfa. Roedd canfyddiadau'r arolwg a wnaed gyda phlant a phobl ifanc yn yr ystâd sefydliadau diogel yn cadarnhau hyn ac adlewyrchent ganfyddiadau o arolygon blaenorol, gan gynnwys yr adroddiadau blynyddol ar brofiadau pobl ifanc mewn STIau i rai dan 18 oed a gyhoeddir ar y cyd gan y BCI ac Arolygiaeth Carchardai EM.⁵

⁵ Gweler <http://www.justice.gov.uk/publications/inspectorate-reports/hmi-prisons/thematic-research.htm>.

Yn 2010/11, pobl ifanc o gefndiroedd ethnig du oedd i gyfrif am 17% o'r bobl ifanc yn y ddalfa – cynnydd o 4% er 2007/08.⁶ O'i gymharu, pobl ifanc o gefndiroedd ethnig du sydd i gyfrif am 3% o'r boblogaeth bobl ifanc 10 i 17 oed yn gyffredinol.⁷

O'r herwydd, gofynnodd nifer fawr o'r rhanddeiliaid am ragor o fanylion am sut mae'r llywodraeth yn bwriadu ymateb i anghymesuredd yn yr ystâd sefydliadau diogel i blant a phobl ifanc.

Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod darparwyr yn hybu cydraddoldeb ac yn rhoi sylw i wahaniaethu'n rhagweithiol yn eu hymarfer ac, felly, rydym wedi diwygio'r cynlluniau datblygu terfynol i ddarparu mwy o eglurder ar y camau y bwriadwn eu cymryd. Yn benodol, rydym:

- wedi ailddrafftio'r egwyddorion er mwyn bod yn fwy penodol am gydnabod amrywiaeth a hybu cydraddoldeb
- wedi amlinellu ein bwriad i wneud gwaith pellach er mwyn deall pam bod plant a phobl ifanc BME yn parhau i gael profiadau llai ffafriol yn y ddalfa o'i gymharu â'u cymheiriaid Gwyn
- wedi ystyried sut orau i gefnogi ein darparwyr i ddatblygu arferion a strwythurau effeithiol er mwyn hybu cydraddoldeb a mynd ati i roi sylw i unrhyw wahaniaethu.

Defnyddio dedfrydau caethiwo ar gyfer unigolion dan 18

Dadleuai nifer o randdeiliaid – yn enwedig o'r trydydd sector – am gyflwyno amddiffyniadau statudol i sicrhau na chaiff caethiwo ond ei ddefnyddio fel y dewis olaf un, gan adlewyrchu'r rhwymedigaethau dan gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Yn ogystal, galwodd nifer fechan o'r ymatebion am godi oedran cyfrifoldeb troseddol.

Prif nod y system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru a Lloegr yw atal ailddroseddu ac mae gofyn i'r llysoedd ystyried lles y person ifanc wrth ddedfrydu. Gan adlewyrchu hyn, mae'r fframwaith dedfrydu i rai dan 18 oed yn gwbl wahanol i'r fframwaith ar gyfer oedolion, ac mae'n seiliedig ar gyhoeddiad diweddar y Cyngor Dedfrydu *Overarching Principles for Sentencing Youths*.⁸ Mae'r canllawiau yn sicrhau bod dedfrydwyr yn gallu ystyried yr ymyraethau mwyaf priodol yn seiliedig ar asesiad o bobl ifanc, gan roi ystyriaeth i'w hanghenion personol a'u hymddygiad troseddol.

⁶ Ffynhonnell: y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2011) *Youth Justice Statistics 2010/11 (England and Wales)*. Llundain: Llywodraeth EM.

⁷ Mae'r boblogaeth 10 i 17 oed yn seiliedig ar amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer 2009. Hwn yw'r data diweddaraf sydd ar gael sydd â dadansoddiad ethnigrydd.

⁸ http://sentencingcouncil.judiciary.gov.uk/docs/web_overarching_principles_sentencing_youths.pdf.

Barn y llywodraeth yw bod plant, o 10 oed ymlaen, yn gallu gwahaniaethu rhwng ymddygiad drwg a drygioni difrifol. Mae gosod oedran cyfrifoldeb troseddol ar 10 yn caniatáu i wasanaethau'r rheng flaen ymyrryd yn fuan ac yn gadarn, atal troseddu pellach a helpu pobl ifanc i feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb personol dros eu hymddygiad. Yn ymarferol, mewn nifer fechan o achosion yn unig y ceir pobl ifanc iawn sy'n troseddu mor ddifrifol neu fynych fel mai dedfryd gaethiwo yw'r unig ffordd o rwystro'r troseddu ac o ddiogelu'r cyhoedd. Dim ond pan fetho pob dim arall y caiff person ifanc iawn ei ddedfrydu i gaethiwed a rhaid i'r llysoedd ystyried nifer o ddewisiadau (er enghraifft Gorchymyn Adsefydlu Ieuentid dwys iawn) ac esbonio pam nad yw'r dewis hwn yn briodol pe byddai dedfryd gaethiwo'n cael ei rhoi.

Rydym yn derbyn at hynny nad erlyn drwy'r llysoedd bob amser yw'r ymateb mwyaf priodol i droseddau ieuentid. Rhoddir sylw i'r rhan fwyaf o'r troseddau ieuentid gan ddefnyddio penderfyniadau y tu allan i'r llys. Er nad yw'n fwriad gennym ymrwymo i ostwng yr oed cyfrifoldeb troseddol, rydym yn bendant ynghylch y ffaith mai yn niffyg dim arall yn unig y dylid defnyddio dedfrydau caethiwo ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mabwysiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Galwodd grŵp mawr o fudiadau trydydd sector am gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn llwyr yn yr egwyddorion comisiynu a amlinellir yn y strategaeth.

Yn 2010, ailddatganodd y llywodraeth ei hymrwymiad i'r UNCRC drwy gyhoeddi drwy gyfrwng Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig y bydd bob amser yn rhoi ystyriaeth ddyledus i Erthyglau'r UNCRC wrth wneud deddfwriaeth a pholisïau newydd.⁹ Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes dim cynlluniau i gynnwys UNCRC yn y deddfwriaeth ddomestig, ac nid oes gofyniad ychwaith yn y UNCRC iddo gael ei gynnwys mewn un darn o deddfwriaeth.

Y dull yw cyflenwi canlyniadau UNCRC drwy gyfrwng cyfuniad o gynlluniau polisi a deddfwriaethol. Prif ffocws y llywodraeth ar hyn o bryd yw plannu diwylliant o gydymffurfio ar draws Whitehall, gan adeiladu ar ei hymrwymiad i UNCRC wrth lunio polisïau a deddfwriaeth newydd.

Diet cytbwys

Amlygodd nifer fechan o ymatebion penodol gan fudiadau trydydd sector yr angen i adolygu'r ddarpariaeth fwyd bresennol a'r ansawdd mewn sefydliadau caethiwo i blant a phobl ifanc. Cafodd hyn hefyd ei adlewyrchu'n glir mewn ymatebion a gafwyd gan y bobl ifanc eu hunain. Roedd y pryderon penodol yn ymwneud â dognau, ansawdd a dewisiadau iach.

⁹ <http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201011/cmhansrd/cm101206/wmstext/101206m0001.htm>

Mae darparwyr yr ystâd sefydliadau diogel yn gyfrifol am ddarparu i bobl ifanc fynediad i ddietau iach a chytbwys. Mae'r cytundebau lefel gwasanaeth a manylebau eu contractau eisoes yn datgan y gofyn hwn yn glir.

Fodd bynnag, mae'r BCI yn cydnabod arwyddocâd y mater hwn ac, fel comisiynydd mannau diogel, mae ganddo rôl allweddol i'w chwarae i gefnogi darparwyr i gyflenwi gwasanaethau priodol i blant a phobl ifanc. Fe wnaethom ddatgan yn y cynlluniau datblygu y camau y byddwn yn eu cymryd i wella'r trefniadau arlwy.

Lleoliadau a bod yn agos i adref


Mae gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a leolir yn yr ystâd sefydliadau diogel – a digomisiynu lleoedd gwag o'r herwydd er mwyn cysoni'r galw a'r cyflenwad – wedi arwain at ystâd sefydliadau diogel sy'n cynnwys llai o sefydliadau mwy gwasgareddig. Gall hyn gael effaith ar y gallu i leoli plant a phobl ifanc yn agos i adref.

Fe wnaeth nifer sylweddol o randdeiliaid – gan gynnwys TTlau a chynrychiolwyr gwasanaethau plant – wneud sylwadau ar yr anawsterau dilynol i ailsefydlu plant a phobl ifanc yn ôl yn eu cymunedau.

Mae'r BCI yn defnyddio ei bwerau comisiynu i gydbwysu ystâd sy'n crebachu gyda'r angen i sicrhau cyflenwad priodol o sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i fodloni anghenion plant a phobl ifanc.

Mae dadansoddiad cipolwg diweddar ar ddata lleoliadau'r BCI, o 1 Rhagfyr 2011, yn dangos bod pedwar allan o bump o blant a phobl ifanc yn cael eu lleoli o fewn 75 milltir i'w cymuned gartref. Gweler Ffigur 2 isod.

Ffigur 2. Pellter cyfartalog o adref



Mae hwn yn dangos cwmp bychan ers Awst 2009 (84%) – cyn gweithgareddau mwyaf diweddar y BCI pryd y digomisiynwyd oddeutu traean o'r holl STlau i rai dan 18 oed.

Er bod amrywiadau rhanbarthol i'w cael, y pellter cyfartalog cenedlaethol ar 1 Rhagfyr 2011 oedd 51.7 milltir. O'r 21% o'r bobl ifanc a leolwyd dros 75 milltir oddi cartref, lleolwyd 68% mewn STlau i rai dan 18 oed, 13% mewn CHDau, 9% mewn cartrefi plant diogel a 10% mewn darpariaeth lefel uwch (e.e. Uned Keppel). Ni leolwyd y bobl ifanc a leolwyd mewn CHDau, cartrefi plant diogel na darpariaeth lefel uwch yn y ddarpariaeth STlau i rai dan 18 oherwydd eu hanghenion penodol. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl ifanc deithio ymhellach i gael gfael ar y gwasanaethau mwyaf priodol iddynt hwy.

Mae'r BCI yn lleoli pobl ifanc yn y sefydliadau sy'n gallu bodloni eu hanghenion orau. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu rhoi person ifanc mewn sefydliad nad yw'r un agosaf at ei gartref. Mae'r BCI yn parhau i fonitro pellter o adref yn ofalus wrth wneud penderfyniadau am leoli.

Pan ysgwyddodd y BCI y swyddogaeth leoli ganolog, rhoddwyd addewid i sicrhau bod 90% o'r bobl ifanc yn cael eu lleoli o fewn 50 milltir i'w cymuned gartref. Hysbyswyd yr ymrwymiad gan y tueddiadau o safbwynt caethiwo a threfniadaeth yr ystâd ar y pryd.

Mae'r BCI eisoes wedi symud oddi wrth yr addewid bendant hon ac nid yw wedi'i chynnwys yn ei dargedau corfforaethol ers sawl blwyddyn. Yn erbyn cefndir o lai o alw ynghyd â symudiad at leoli pobl ifanc yn seiliedig ar anghenion personol, mae'n afrealistig ac yn amhriodol parhau i wneud yr addewid hon.

Mae cynlluniau'r dyfodol ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel yn cydnabod ymhellach y pwysau penodol sydd ar y ddarpariaeth sefydliadau diogel yn Llundain a de ddwyrain Lloegr, lle mae'r galw am fannau diogel yn rhagori ar y ddarpariaeth bresennol. I'r perwyl hwn, mae trafodaethau cychwynnol rhwng y BCI a NOMS eisoes wedi mynd rhagddynt er mwyn sicrhau y gellir datblygu darpariaeth wasanaethau ar y lefelau priodol.

Amrywio'r ddarpariaeth wasanaethau

Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu dau gynnig i amrywio'r ddarpariaeth gaethiwo bresennol. Gan ddefnyddio pwerau dan y Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Ddeddf Rheoli Troseddwy'r 2007 (OMA), awgrymwyd y gellid comisiynu prynu nifer fechan o leoedd yn ôl y galw mewn lletyau y tu allan i'r ystâd sefydliadau diogel bresennol. Yn benodol, awgrymai'r ymgynghoriad y byddai'r pŵer hwn yn galluogi'r BCI i:

- leoli person ifanc sydd â phroblemau iechyd, lles neu ymddygiad eithriadol mewn cyfleuster mwy priodol y tu allan i'r ystâd sefydliadau diogel, a

- datblygu nifer gyfyngedig o safleoedd llai, dibynnol sy'n cynorthwyo ailsefydlu'n ôl yn y gymuned; gallai rhai o'r rhain fod yn lletyau byw agored neu led annibynnol.

Gwelwyd cefnogaeth eang gan yr ymatebwyr i ddefnyddio'r ddarpariaeth dan yr OMA. Dadleuai lleiafrif bychan iawn y gallai cyflwyno mathau newydd o 'letyau caethiwo ieuencid' arwain at ddefnyddio rhagor ar ddedfrydau caethiwo.

Yn dilyn ystyriaeth bellach yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae'r llywodraeth wedi penderfynu nad yw'r risgiau diogelu'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r cynigion fel y'u cyflwynir, o'u cydbwysu â'r manteision, yn cyfiawnhau deddfwriaeth angenrheidiol, bellach. Gellir ymdopi â'r nifer fechan o bobl ifanc y gallai'r ddarpariaeth hon effeithio arnynt o bosibl gyda'r ystâd sefydliadau diogel bresennol a bydd pobl ifanc ag anghenion iechyd meddwl aciwt yn parhau i gael eu trosglwyddo i ddarpariaeth iechyd meddwl ddiogel.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ac amrywio'r ddarpariaeth gaethiwo drwy weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ffyrdd arloesol o wella'r canlyniadau ailsefydlu i blant a phobl ifanc sy'n gadael sefydliadau caethiwo.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Roedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys nifer fechan o gwestiynau penodol. Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u crynhoi isod, ochr yn ochr ag ymateb y llywodraeth.

Egwyddorion a blaenoriaethau

Gofynnai'r ymgynghoriad:

- A ydych yn cytuno gyda'r egwyddorion sy'n cael eu datgan yn y ddogfen hon?
- A oes unrhyw feysydd pwysig na roddir sylw iddynt?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr – gan gynnwys plant a phobl ifanc – yn cytuno gyda'r egwyddorion a gafodd eu datgan. Fodd bynnag, dywedodd rhai y gellid ail eirio'r egwyddorion o safbwynt rhywun ifanc. Yn ogystal, gwnaeth rhai ymatebwyr sylw ar y diffyg uchelgais ymddangosiadol a'r diffyg ffocws ar blant a phobl ifanc.

Gofynnwyd am nifer o egwyddorion ychwanegol, gyda'r galw amlycaf am egwyddor ailsefydlu annibynnol. Ymysg awgrymiadau eraill yr oedd egwyddor ar berthnasoedd rhwng staff a'r bobl ifanc, a hefyd rhwng y bobl ifanc a'u teuluoedd/gofalwyr.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion hyn a chymerom y camau canlynol:

- Rydym wedi dileu'r 'egwyddor leoli' gan mai pryder gweithredol i raddau helaeth iawn yw hwn yn hytrach nag un o egwyddorion y ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r ystyriaethau o safbwynt lleoli yn bwysig o hyd ac fe'u hamlinellir yn y ddogfen.
- Ar ôl ystyried yn ofalus, nid ydym wedi cynnwys egwyddor ar wahân ar ailsefydlu. Y rheswm pennaf am hyn yw'r ffaith nad yw pwerau comisiynu'r BCI yn ymestyn i wasanaethau ailsefydlu yn eu cyfanrwydd. Cydnabyddwn fod hwn yn un o'r prif bryderon i blant a phobl ifanc, ac rydym wedi cynnwys adran ar ailsefydlu yn y ddogfen. Mae hon yn amlinellu'r camau a gymerwn i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n gadael caethiwed yn cael gafael ar wasanaethau sy'n eu galluogi i fyw bywydau llwyddiannus heb droseddu.
- Rydym wedi cryfhau ymhellach y pwyslais ar gynllunio dedfrydau effeithiol fel rhan o'r egwyddor asesu a chynllunio dedfrydau. Yn ogystal, rydym wedi atgyfnerthu'r pwyslais ar natur 'gyflawn' gorchmynion pobl ifanc a'r angen i gynllunio ar gyfer ailsefydlu o'r dechrau.

Datblygu unedau lefel uwch

Un o'r cynigion allweddol yn y strategaeth oedd datblygu unedau lefel uwch i fodloni'n well anghenion plant a phobl ifanc – yn enwedig y rheini a leolir mewn STlau i rai dan 18 oed. Gofynasom y cwestiynau canlynol:

- A ydych yn cytuno gyda'r nod o ddatblygu unedau lefel uwch (mewn sefydliadau mwy) i roi sylw i anghenion nifer fechan o bobl ifanc sydd ag anghenion dyrys iawn?
- Beth arall ellir ei wneud i fodloni anghenion pobl ifanc yn y ddalfa?

Cafwyd ymateb ffafriol i'r cynnig i ddatblygu unedau lefel uwch – yn enwedig gan TTlau, gwasanaethau plant ac arolygiaethau. Cododd rhai mudiadau trydydd sector bryderon y gallai cyflwyno unedau lefel uwch mewn STlau i rai dan 18 mwy arwain at ystâd ddiogel dwy haen. Yn ogystal, tynnodd yr ymgynghoreion sylw at y ffaith y dylai'r holl ddarpariaeth fod yn un lefel uwch a bod cyflwyno unedau lefel uwch mewn STlau i rai dan 18 yn gyfaddefiad o'u diffyg ffocws ar blant.

Dadleuai'r cynrychiolwyr o'r sector CHDau a'r sector cartrefi plant y gellid eisoes ystyried y gwasanaethau roeddent hwy yn eu darparu fel gwasanaethau lefel uwch.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod y cyfraniad unigryw a wna'r CHDau a'r cartrefi plant diogel ac y ceir rhai pobl ifanc na fydd ond amgylchedd cartref plant diogel yn briodol iddynt. Fodd bynnag, i rai pobl ifanc, nid yw lleoliad mewn cartref plant diogel na CHDau yn briodol oherwydd eu hoedran neu eu cyfluniad risg ac angen. Byddant, fodd bynnag, yn elwa o ddarpariaeth lefel uwch mewn STlau i rai dan 18.

I'r bobl ifanc hyn, mae unedau lefel uwch yn darparu amgylchedd lle gellir bodloni eu hanghenion yn effeithiol. Gwelsom ddatblygu darpariaeth effeithiol a phriodol i blant a phobl ifanc ag anghenion dyrys yn Unedau Keppel a Willow. Mae cyflwyno unedau lefel uwch hefyd wedi sbarduno gwelliannau mewn gwasanaethau yn ehangach mewn STlau i rai dan 18 – yn benodol o safbwynt datblygu'r gweithlu ac arferion recriwtio.

Yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant byddwn felly'n ceisio cynyddu'r math hwn o ddarpariaeth. Bydd datblygu unedau o'r fath yn ein galluogi i barhau i symud at wasanaethau comisiynu sy'n neilltuol ac yn gallu bodloni anghenion penodol plant a phobl ifanc. Rydym felly'n ystyried cyflwyno unedau lefel uwch fel carreg gamu angenrheidiol yn y cyfeiriad hwn. Mae'r manteision ehangach yn troi'r fantol yn erbyn risgiau tymor byr creu ystâd sefydliadau diogel 'dwy haen'.

Ar ôl trafod y pryderon a godwyd yn ofalus, ac am y rhesymau a amlinellir, rydym wedi adlewyrchu yn y cynlluniau datblygu ein bwriad i barhau i ddatblygu unedau lefel uwch.

Ymateb i'r llai o alw

Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu cynigion dynodedig y llywodraeth i ymateb i'r gostyngiad yn y galw am leoedd mewn sefydliadau diogel. Ac ystyried y gostyngiad yn y galw am gartrefi plant diogel a gwelyau CHDau yn benodol, amlinellai'r strategaeth fod digomisiynu yn debygol o fod yn y sectorau hyn.

Dyma'r cwestiynau penodol y gwnaethom eu gofyn:

- A ydych yn cytuno gyda'r cynigion ar gyfer addasu i'r gostyngiad yn y galw?
- Pa rôl ddylai profi'r farchnad ei chwarae yn y broses hon?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y gwnaethant roi sylwadau ar y cwestiynau hyn yn feirniadol o'n cynigion. Roedd nifer o resymau am hyn:

- Ar hyn o bryd ceir diffyg tystiolaeth gadarn o'r canlyniadau y mae pob sector unigol yn eu cyflawni. Mae felly'n anodd gwneud honiadau am werth cymharol pob sector.
- Roedd nifer fawr o'r farn mai CHDau a chartrefi plant diogel – a'r cyfundrefnau y gallant eu cynnig – yw'r amgylchedd mwyaf priodol i blant a phobl ifanc.
- Teimlwyd y byddai unrhyw gynlluniau i ddigomisiynu oddi wrth y sector CHDau neu'r sector cartrefi plant diogel yn mynd yn groes i egwyddorion comisiynu'r BCI ei hun – yn enwedig yr egwyddor o gomisiynu 'ystâd arbenigol, ar wahân i blant a phobl ifanc'.
- Ac ystyried maint bychan y sector cartrefi plant diogel, gallai gostyngiadau pellach yn y sector gael effaith negyddol ar allu'r BCI i leoli pob person ifanc yn unol â'i angen.
- Mae'r BCI yn lleoli plant iau a'r rheini sydd ag anghenion penodol mewn cartrefi plant diogel a CHDau. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu y gallai digomisiynu pellach arwain at ddiffyg gwelyau mewn cartrefi plant diogel a CHDau i bobl ifanc hŷn agored i niwed.

Yn ogystal, mynegwyd pryder am y dull arfaethedig o brofi'r farchnad, yn benodol ynghylch y ffaith bod strategaeth profi marchnad bresennol y llywodraeth yn canolbwyntio ar oedolion yn unig, gan roi ychydig iawn o gydnabyddiaeth, os o gwbl, i gyfluniad penodol y sector dan 18.

Cydnabyddwn gryfder teimladau am y mater hwn a chydabyddwn hefyd gyfraniad cartrefi plant diogel a CHDau, ac y bydd rhai pobl ifanc na fydd ond amgylchedd cartref plant diogel yn briodol iddynt.

Rydym yn sylweddoli bod y sylfaen dystiolaeth bresennol, o safbwynt y canlyniadau y mae'r sector yn eu cyflawni, yn gyfyngedig. Mae arnom, felly, angen deall yn well a yw'r gwahaniaethau rhwng tri sector yr ystâd sefydliadau diogel – gan gynnwys costau – yn cael eu hadlewyrchu yn y canlyniadau a sicrheir o safbwynt adsefydlu ac aildroseddu.

Mae'r anodd datblygu'r wybodaeth hon. Mae'r BCI, fodd bynnag, wedi comisiynu gwerthusiad 'Pobl Ifanc, Ymyriadau a'r Ystâd Sefydliadau Diogel', sef astudiaeth o garfan graddfa fawr sy'n pwyso a mesur:

- a ellid dangos bod y gwahanol ymyriadau a'r cyfundrefnau yn gost-effeithiol yng ngoleuni gwahanol anghenion, risgiau, a nodweddion y bobl ifanc sy'n treulio eu dedfrydau yn y mathau gwahanol hyn o sefydliadau
- a oes cysylltiad amlwg rhwng profiadau pobl ifanc a'r rhaglenni/ymyriadau a gawsant yn y ddalffa a'r cyfraddau ail-euogfarnu ar ôl eu rhyddhau
- a yw'r rhaglenni a'r ymyriadau a roddir yn y ddalffa yn cael eu teilwrio'n unol ag anghenion a ffactorau risg.

Mae cam olaf yr astudiaeth hon yn ddadansoddiad 12 mis o aileuogfarnau, ac mae'n cynnwys adran ar gost-effeithiolrwydd. Disgwylw'n gyhoeddi'r canfyddiadau hyn yn 2013. Ffocws elfen gost-effeithiolrwydd yr astudiaeth hon fydd canfod sut mae costau pob un math o sefydliad yn cymharu gyda'r canlyniadau (a'r arbedion dilynol) i'r bobl ifanc yn y sefydliad, gan roi ystyriaeth i risgiau ac anghenion gwahanol y bobl ifanc ym mhob math o sefydliad.

Gwyddom eisoes fod y cyfraddau aildroseddu ar eu uchaf ymysg pobl ifanc y cawsant ddedfryd o gaethiwed. Yn 2009, roedd y gyfradd aildroseddu yn 69.7% i blant a phobl ifanc sy'n gadael yr ystâd sefydliadau diogel, o'i chymharu â chyfradd aildroseddu gyffredinol o 33.3% ar draws y system cyfiawnder ieuencid.¹⁰

Mae'r ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar *Youth Justice Statistics 2010/11*¹¹ yn caniatáu i ni wneud cymariaethau, am y tro cyntaf, rhwng cyfraddau aildroseddu y gwahanol sectorau. Yn 2009, roedd y gyfradd aildroseddu yn 70% gan STIau i rai dan 18, yn 69.2% gan CHDau ac yn 79% gan gartrefi plant diogel. Mae'n anodd gwneud cymariaethau rhwng y ffigurau hyn ac ystyried nodweddion gwahanol y bobl ifanc sy'n gadael sefydliadau o safbwynt oedran, aeddfedrwydd a hanes troseddu, yn ogystal â'r gwahanol gyfundrefnau y maent wedi'u profi cyn eu rhyddhau.

Er na fydd yr ystadegau hyn na'r canfyddiadau o'r ymchwil arfaethedig yn ein galluogi i gymharu'r canlyniadau rhwng y gwahanol sectorau yn uniongyrchol, dylent ein helpu i ddeall yn well effeithiolrwydd yr ymyriadau a gyflwynir ym mhob sefydliad a'r canlyniadau a sicrhawyd.

¹⁰ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Reoffending publication: Proven reoffending statistics – quarterly bulletin April 2009 to March 2010*. Llundain: Llywodraeth EM.

¹¹ Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2012) *Youth Justice Statistics 2010/11 – England and Wales*. Llundain: Llywodraeth EM.

Yn olaf, mae'r BCI yn gweithredu mewn amgylchedd ariannol tynn ac mae gofyn iddo gyfrannu at dargedau arbedion y llywodraeth. Mae felly'n bwysig comisiynu ystâd sefydliadau diogel cost-effeithiol. Nid yw'r lleoedd dros ben yn ddiweddar yn y sector cartrefi plant diogel a'r sector CHDau yn gost-effeithiol ac nid ydynt yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Rydym felly'n bwriadu parhau â'n rhaglenni ail-gontractio gyda CHDau a chartrefi plant diogel a lleihau'r lefelau gwasanaeth cyffredinol yn y sectorau hyn. Mae'r penderfyniad yn seiliedig ar yr angen i gysoni'r cyflenwad a'r galw'n well.

Ystâd sefydliadau diogel neilltuol i rai dan 18

Un o'r egwyddorion allweddol sy'n arwain gwaith y llywodraeth yn y maes hwn yw comisiynu gwasanaethau diogel sydd ar wahân yn weithredol ac yn strwythurol i'r rheini ar gyfer oedolion. Roedd y ddogfen ymgynghori yn cydnabod y cynnydd a wnaed yn y gorffennol, ac amlinellai'r gwaith sydd gennym ar y gweill, i sicrhau y cyflawnir hyn yn llawn.

Fe wnaethom ofyn:

- Pa waith pellach y gellid ei wneud i gyfrannu at sefydlu ystâd sefydliadau diogel cwbl neilltuol i blant a phobl ifanc?

Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr yn teimlo bod realaeth weithredol dydd i ddydd yr ystâd sefydliadau diogel yn gwbl wahanol i'r egwyddorion sy'n cael eu cyfleu yn nogfen yr ymgynghoriad – yn enwedig mewn STlau i rai dan 18. Roedd rhai ymatebwyr yn amau a fyddai STlau i rai dan 18 byth yn darparu'r amgylchedd a'r gwasanaethau gofynnol i fodloni'n effeithiol anghenion y bobl ifanc a leolir yno.

Mae'r cynlluniau yn ategu ein dymuniad i gomisiynu ystâd sy'n wahanol i'r gwasanaethau a gyflenwir i oedolion. Rydym hefyd yn cydnabod yn glir y gall y sector STlau i rai dan 18 fod â diffyg ffocws ar gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd gydnabod mai NOMS fydd yn parhau i fod yn brif ddarparwr gwasanaethau caethiwo i ni, hyd y gwelwn ni.

Mewn ymateb, rydym wedi datgan yn gliriach ein hawydd i sicrhau bod gwasanaethau a ddarperir mewn STlau i rai dan 18 yn neilltuol yn eu ffocws ar blant a phobl ifanc. Ochr yn ochr â'r gwaith presennol o safbwynt recriwtio a hyfforddi staff, mae hyn, yn hanfodol, yn cynnwys galwad i adolygu'r strwythurau rheoli a llywodraethu presennol o fewn NOMS yn ogystal â llawlyfrau gweithredu mewn STlau i rai 18.

Diwrnod llawn a phwrpasol

Gan adlewyrchu ymrwymadau ehangach y llywodraeth i sicrhau bod carchardai yn dod yn lleoedd gweithio, fe wnaeth yr ymgynghoriad gyfleu beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc a roddir yn y ddalfa. Un o'r prif bryderon oedd sicrhau gwell mynediad i ymyriadau effeithiol sy'n rhoi sylw i ymddygiad troseddol.

Gofynnem y cwestiynau canlynol:

- Beth arall y gellir ei wneud i sicrhau datblygu ymyriadau effeithiol mewn sefydliadau diogel?
- Pa rôl ddylai'r BCI ei chwarae?

Arweiniodd y cwestiwn hwn at amrywiaeth eang o ymatebion. Roedd y TTIau a'r gwasanaethau plant yn enwedig yn awyddus iawn i bwysleisio'r angen am ddarpariaeth gwasanaethau fwy cydgyssylltiedig rhwng y ddalffa a'r gymuned. Gallai hyn ddigwydd ar ffurf ymyriadau yn y ddalffa yn cael eu cyflenwi gan staff y TTIau.

Gwerthfawrogai cynrychiolwyr y trydydd sector y gydnabyddiaeth bod gwell ymyriadau'n ofynnol, a chydabuont y rôl y mae gan y BCI i'w chwarae. Y rhan y dylai'r BCI ei chwarae'n bennaf yw cefnogi sefydliadau diogel i gyflenwi gwasanaethau sy'n ddigon hyblyg i fodloni anghenion cyfannol pob plentyn a pherson ifanc unigol yn yr ystâd sefydliadau diogel. Yn ogystal, roedd galwad i sicrhau bod y strategaeth yn cyfleu'n well yr hyn yw ymarfer effeithiol ac yn disgrifio sut bydd y BCI yn sicrhau bod y safonau gwasanaeth yn cael eu bodloni'n gyson.

Roedd yr ymatebion oddi wrth gyrrff proffesiynol yn awgrymu y dylai'r BCI wneud gwell ymrwymiad i sefydlu a lledaenu ymarfer effeithiol.

Mewn ymateb i'r awgrymiadau hyn rydym:

- wedi adlewyrchu pryderon y rhanddeiliaid yn yr egwyddorion
- wedi cynnwys egwyddor newydd sy'n pwysleisio'r angen i gomisiynu gwasanaethau'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, a rôl y BCI i nodi a lledaenu ymarfer effeithiol
- wedi disgrifio sut fydd y BCI yn cefnogi nodi a lledaenu ymarfer effeithiol mewn sefydliadau caethiwo.

Ailsefydlu effeithiol

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hailsefydlu'n effeithiol yn gydran hanfodol i sicrhau y gallant fyw bywydau llwyddiannus, bodlon heb droseddu. Mae darparu mynediad i lety addas a chynaliadwy, addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a gwasanaethau iechyd adeg eu rhyddhau o'r ddalffa yn gam cyntaf holl bwysig tuag at gyrraedd y nod hwn. Mae'r gwaith a wneir yn y ddalffa i gynllunio ar gyfer rhyddhau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer y trawsnewid yn cyfrannu at ailsefydlu llwyddiannus.

Fel rhan o'r ymgynghoriad fe wnaethom felly ofyn y cwestiwn canlynol i'r rhanddeiliaid:

- Beth yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol i'r BCI gefnogi darparwyr fel bod gwasanaethau yn y ddalffa a gwasanaethau yn y gymuned wedi'u cysylltu'n well ac yn ategu ei gilydd yn well?

Roedd yr ymatebion gan y TTIau a'r gwasanaethau plant yn gefnogol i ddatblygu'r consortia ailsefydlu yn ddiweddar, ac adroddwyd bod y rhain wedi gwella'r broses ailsefydlu'n sylweddol. Fodd bynnag, roedd nifer o'r rhanddeiliaid yn meddwl tybed a allai'r BCI wneud rhagor i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth yn genedlaethol – a chefnogi'r TTIau hynny nad ydynt yn rhan o gonsortiw m ar hyn o bryd.

Cydnabyddwn nad yw cynlluniau ailsefydlu bob amser wedi'u cwblhau mewn pryd ar gyfer rhyddhau, ac mae hyn, yn ddealladwy, yn pryderu pobl ifanc ac yn llesteirio goruchwylwyr achosion. Datgelai'r arolwg o blant a phobl ifanc a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad eu bod yn pryderu'n benodol am fynediad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau adeg eu rhyddhau.

Un syniad a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori oedd i'r BCI gomisiynu safleoedd dibynnol llai i gynorthwyo'r broses ailsefydlu. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol iawn i hyn. Fel yr amlinellir uchod, ni fyddwn yn deddfu ar gyfer mathau newydd o letyau drwy gyfrwng adran 34 o'r Ddeddf Rheoli Troseddwy. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu ffyrdd arloesol o sicrhau bod y prosesau ailsefydlu mor effeithiol â phosibl – gan gynnwys yn benodol defnyddio'r consortia ailsefydlu yn ehangach.

Yn olaf, bu i nifer o'r TTIau a'r gwasanaethau plant fynegi diddordeb mewn gweithio'n agos gyda sefydliadau diogel. Dyma rai o'r syniadau penodol:

- datblygu a chyflenwi ymyriadau yn y ddalfa gan TTIau
- cynyddu'r cyd gyfleoedd hyfforddi.

O ganlyniad i'r adborth a ddaeth i law, rydym wedi ailddatgan:

- ein hymrwymiad i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y prosesau ailsefydlu yn effeithiol
- ein hymrwymiad i weithio gyda TTIau i sicrhau trosglwyddo gwybodaeth yn effeithiol
- pwysigrwydd cynllunio ailsefydlu fel rhan o'r broses cynllunio dedfrydau.

Dyfodol yr ystâd sefydliadau diogel i rai dan 18

Er bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod yr adolygiad o wariant, fe wnaethom hefyd geisio barn am ddull tymor hwy ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel i rai dan 18 gyda'r cwestiwn canlynol:

- Beth yw eich barn am gyfansoddiad tymor hwy yr ystâd sefydliadau diogel a'r weledigaeth ar ei chyfer, gan gynnwys eich awgrymiadau am:
 - wahanol fathau o ddarpariaethau
 - trefniadau (cyd) gomisiynu amgen
 - datblygu cyfundrefnau ymhellach
 - peirianweithiau cyflenwi
 - strategaethau cystadlu

- rôl awdurdodau lleol
- cyfluniad yr ystâd
- datblygu a chyflenwi Ymddygiad Troseddol a rhaglenni eraill
- gwella'r cyfleoedd ailsefydlu?

O'i gymharu â chwestiynau eraill, ni chafodd y cwestiwn hwn ond nifer gyfyngedig o ymatebion gan y rhanddeiliaid. O'r rheini a ymatebodd, gwnaeth y mwyafrif helaeth sylw am y system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd – gan alw er enghraifft am godi'r oedran cyfrifoldeb troseddol neu am ehangu'r gwaith ataliol i leihau nifer y bobl ifanc sydd yn y ddalfa.

Yn gyffredin â'r ymatebion a oedd yn delio'n fwy uniongyrchol gyda'r ystâd sefydliadau diogel yr oedd y farn glir y dylai'r ystâd sefydliadau diogel i rai dan 18 fod yn gwbl ar wahân i'r gwasanaethau i oedolion, er mwyn gallu datblygu hunaniaeth a diwylliant ar wahân. Dylai'r datblygiad hwn ddigwydd o fewn fframwaith sy'n canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau bod hawliau plant (fel y'u hamlinellir yn UNCRC) yn cael eu bodloni. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg rannu'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r ystâd sefydliadau diogel i rai dan 18. Gallai hyn roi gwasanaethau mewn gwell sefyllfa i fodloni anghenion sylfaenol pobl ifanc a roddir yn y ddalfa – gan sicrhau'n benodol fynediad i ddarpariaeth iechyd, iechyd meddwl a dysgu a sgiliau effeithiol.

Gafwyd galwadau am fwy o ran i awdurdodau lleol wrth gomisiynu a dylunio gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt troseddau â chyllyll a phroblemau gangiau. Galwodd rhai ymatebion am fwy o ran i golegau addysg bellach i ddarparu addysg yn y ddalfa. Gellid hwyluso hyn drwy gyflwyno contractau taliad yn ôl canlyniad gyda cholegau.

Roedd yr ymatebwyr yn glir am yr angen i sicrhau bod angen i'r gwasanaethau a gyflenwir yn y ddalfa ganolbwyntio'n llwyr ar anghenion y bobl ifanc. Ymysg yr awgrymiadau penodol yr oedd sylfaenu dulliau caethiwo ar dulliau cyrsiau bywyd neu theorïau ymlyniad, gyda ffocws penodol ar atal ac ymyrraeth gynnar.

O safbwynt cyfluniad yr ystâd, galwodd yr ymatebwyr am ddatblygu unedau bach – yn cael eu cynnal ar fodel cartrefi plant diogel – ym mhob cytref drefol, gan alluogi plant a phobl ifanc i gael eu lleoli'n agos i'w cymunedau cartref. Galwodd rhai rhanddeiliaid am wahaniaethu rhagor ar y ddarpariaeth bresennol. Ymysg yr awgrymiadau penodol yr oedd datblygu sefydliadau camu lawr neu led agored, yn ogystal ag ailfeddwl am y gefnogaeth o safbwynt y gefnogaeth letya a gynigir i bobl ifanc ar hyn o bryd pan gânt eu rhyddhau.

Er mai nifer fechan o ymatebion yn unig y gwnaeth y cwestiwn hwn esgor arnynt, rydym yn cydnabod y dylem fod yn ystyried polisïau y gallent siapiro'r ystâd y tu hwnt i gyfnod yr adolygiad o wariant, gan gynnwys er enghraifft, ein hagwedd at gystadleuaeth. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i lunio strategaeth tymor hwy i'r ystâd i rai dan 18 a byddwn yn cynnwys partneriaid cyfiawnder ieuencid yn y gwaith hwn.

Casgliadau a'r camau nesaf

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn datgan sut wnaeth yr ymatebion siapio'r cynlluniau datblygu terfynol. Mae cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer yr ystâd sefydliadau diogel, *Datblygu'r Ystâd Sefydliadau Diogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc – Cynlluniau hyd at 2015*, wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr yr ymateb hwn ac mae ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Yn ystod cyfnod yr adolygiad o wariant, bydd y BCI yn gweithio gyda'i bartneriaid yn y llywodraeth i sicrhau bod y gwaith yn cael ei weithredu'n effeithiol. Caiff rhagor o fanylion am y prosesau gweithredu eu cyhoeddi fel rhan o gylch cynllunio busnes corfforaethol BCI sydd ar gael i'r cyhoedd.

Fel blaenoriaeth, mae'r BCI eisoes yn gweithio gyda'i ddarparwyr eiriolaeth Voice a Barnardo's i bwysu a mesur sut fyddai'r ffordd orau o adrodd yn ôl wrth y plant a'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol am y cynlluniau datblygu. Yn ogystal, mae'r BCI hefyd yn cyhoeddi canfyddiadau o'r arolwg o bobl ifanc.

Manylion cyswllt cydlynedd yr ymgynghoriad

Os oes gennych unrhyw sylwadau am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Sheila Morson ar 020 3334 4498, neu anfonwch e-bost ati ar: sheila.morson@justice.gsi.gov.uk.

Neu, gallech ysgrifennu ati yn y cyfeiriad isod:

**Ministry of Justice
Consultation Co-ordinator
Legal Policy Team
Legal Directorate
6th Floor, 6.37
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

Y meini prawf ymgynghori

Dyma'r saith maes prawf ymgynghori:

1. **Pryd i ymgynghori** – Dylid cynnal ymgynghoriadau ffurfiol ar adeg pan mae posibilrwydd o ddylanwadu ar y canlyniad polisi.
2. **Hyd ymarferiadau ymgynghori** – Dylai ymgynghoriadau fel arfer bara am o leiaf 12 wythnos a dylid rhoi ystyriaeth i amserlen hwy os yw hynny'n ymarferol ac yn synhwyrol.
3. **Eglurder o ran cwmpas ac effaith** – Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir am y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, y posibilrwydd o ddylanwadu a chostau a manteision disgwylidig y cynigion.
4. **Hygyrchedd ymarferiadau ymgynghori** – Dylid cynllunio ymarferiadau ymgynghori i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir i'r ymarferiad eu cyrraedd, a dylent gael eu hanelu'n glir atynt.
5. **Baich yr ymgynghori** – Mae'n hanfodol cadw baich yr ymgynghori mor ysgafn â phosibl, er mwyn i'r ymgynghoriad fod yn effeithiol ac er mwyn sicrhau cefnogaeth yr ymgynghoreion i'r broses.
6. **Ymatebolrwydd ymarferiadau ymgynghori** – Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus iawn a dylid darparu adborth clir i'r cyfranogwyr ar ôl yr ymgynghoriad.
7. **Capasiti i ymgynghori** – Dylai swyddogion sy'n cynnal ymgynghoriadau geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarferiadau ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu oddi wrth y profiad.

Rhaid atgynhyrchu'r meini prawf hyn ym mhob dogfen ymgynghori.

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

TTlau/gwasanaethau plant
Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Cyngor Swydd Buckingham
Tîm Troseddwy Ifanc Coventry
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Dyfnaint
Cyngor Sir Durham
Tîm Troseddwy Ifanc East Riding
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Haringey
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Caint
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan Knowsley
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Leeds
Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Swydd Gaerlŷr
Cyngor Swydd Lincoln
Cyngor Dinas Manceinion
Tîm Troseddwy Ifanc Medway
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Newport
Tîm Troseddwy Ifanc Norfolk
Partneriaeth Cyfiawnder Ieuenctid Swydd Nottingham
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Swydd Rydychen
Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid Integredig Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan St Helens
Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Swydd Stafford
Gwasanaeth Troseddwy Ifanc Suffolk
Tîm Troseddwy Ifanc Dyffryn Tafwys
Trydydd sector
Action for Prisoners' Families
Catch 22
Childhood Bereavement Network
Children's Rights Alliance for England (CRAE)
Clinks a Chyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (NCVYS)
Coram Children's Legal Centre
Foyer Federation
Leap Confronting Conflict
National Children's Bureau (NCB)
Ymddiriedolaeth y Tywysog

Pwyllgor Sefydlog Cyfiawnder Ieuenctid (SCYJ)
Transition to Adulthood Alliance (T2A)
Voice
Cyrff swyddogol a'r Llywodraeth
ADCS
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW)
Comisiwn Ansawdd Gofal
Adran Addysg (DfE) Is-adran Plant mewn Gofal
Arolygiaeth Carchardai EM
Arglwydd Ramsbotham
Cymdeithas yr Ynadon
Maer Llundain
Cyngor Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol
Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (NTA)
Swyddfa'r Comisiynydd Plant (OCC)
Ofsted
Cymdeithas y Prif Swyddogion Prawf (PCA)
Erill
Cyngor Celfyddydau Lloegr
Cwnstablïaeth Dyfnaint a Chernyw
Astudiaethau Ymchwil Academaidd Annibynnol (IARS)
Prifysgol Newcastle
Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS)
Responsive Solutions
Sgiliau er Cyfiawnder
Darparwyr yr ystâd sefydliadau diogel
Cartref Plant Diogel Aycliffe
Cartref Plant Diogel Barton Moss
G4S
Cartref Plant Diogel Hillside
Sefydliad Lucy Faithfull (LFF)
Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) – Tîm Pobl Ifanc
Rhwydwaith Lletyau Diogel
Sefydliad Troseddwyr Ifanc Warren Hill
Sefydliad Troseddwyr Ifanc Warren Hill (Rheolwr)
Grŵp Llywio Annibynnol Prosiect Academi Troseddwyr Ifanc
Iechyd
Cymdeithas Seicolegol Prydain

Canolfan Iechyd Meddwl
Mencap
Gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig Diogel Cenedlaethol i Bobl Ifanc
Grŵp Diddordeb Arbennig Fforensig Glasoed y Coleg Seiciatryddion Brenhinol
Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
Young Minds
Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Estyn
Gofal a Chymorth Gwalia
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Llywodraeth Cymru
Y cyhoedd
Tri chyflwyniad

© Hawlfraint y Goron 2012
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ymwelwch â <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi tynnu sylw at ddeunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar fformatau amgen ar gael dim ond i chi ofyn amdanynt oddi wrth y BCI (ffôn: 020 3372 7891).